Coca Cola ... Cyfrinachol!

Cysyniadau: **Rhannu, dod i benderfyniad.**

Amcan: **Dangos bod ambell gyfrinach yn werth ei rhannu.**

Cyfarpar: **Potel neu gan o Coca Cola, Beibl, y cylchgrawn Golwg.**

Cyflwyniad:

● Dwi'n siŵr fod gan bob un ohonom ni gyfrinach. Fel arfer, fyddwn ni ddim yn datgelu cyfrinachau i'n gilydd. Mi fyddwn ni'n eu cadw i ni'n hunain. Ambell dro, pan fydd y papurau newydd a'r cylchgronau yn holi pobl enwog mi fyddan nhw'n gofyn, 'Wnewch chi rannu cyfrinach efo ni?' Mae rhai yn gwrthod yn bendant ond mae rhai yn barod i rannu ambell gyfrinach efo ni. (Gellir cymryd enghraifft o'r cylchgrawn Golwg o'r dudalen sy'n holi selebs!)

● Mi ydw i am rannu cyfrinach efo chi heddiw e.e. mi ydw i ofn pry copyn neu rywbeth arall hollol ddiniwed!

● Ydych chi wedi sylwi beth sydd ar y bwrdd heddiw? Bydd y plant yn siŵr o gyfeirio at y botel neu'r can Coke. Holi faint ohonyn nhw sy'n hoffi Coke? Gellir cyfeirio at y lori anferth fydd yn crwydro o gwmpas y wlad adeg y Nadolig.

● Wyddoch chi fod yna gynhwysyn yn y Coke sy'n gyfrinach? Yn ôl pob sôn dim ond dau o weithwyr y cwmni sy'n gwybod beth ydi'r gyfrinach. Ac yn ôl rheolau'r cwmni chaiff y ddau ddim teithio gyda'i gilydd rhag ofn i'r ddau gael eu lladd a dyna hi ar ben ar y gyfrinach wedyn.

● Dowch i gael tipyn o hanes y Coca Cola.

Stori:

Mae'r hanes yn mynd â ni'n ôl i'r flwyddyn 1886, i Atlanta, Georgia, yng Ngogledd America.

Ar ôl i John Stith Pemberton orffen ei gwrs yn y coleg meddygol cafodd drwydded i ddechrau gweithio fel fferyllydd pan oedd yn bedair ar bymtheg oed. Ond yn fuan wedi hynny cafodd ei anafu pan drywanwyd ef yn ei frest â chleddyf, pan oedd yn filwr yn y Rhyfel Cartref yn America. Wedi hynny dioddefodd boenau enbyd a byddai'n cymryd y cyffur morffin i leddfu'r boen. Bu'n gaeth i'r cyffur hwn a dechreuodd arbrofi â gwahanol fathau o blanhigion i leddfu poen ac i geisio lleihau ei ddibyniaeth ar y morffin.

Un o'r planhigion hynny oedd y coca sef planhigyn sy'n gynhenid i wledydd yr Ariannin, Bolivia, Colombia, Ecwador a Pheriw yn Ne America. Llwyn sy'n tyfu i 3-5 medr tebyg i'r ddraenen ddu ydi planhigyn y coca a'r dail a ddefnyddir i wneud coca cola.

Llwyddodd John Pemberton i wneud surop o ddail y coca, y cnau cola ynghyd â chynhwysyn arall cyfrinachol nad oes neb yn gwybod beth ydi o.

● Dangos y Beibl i'r plant. Mae 'na gyfrinach yn hwn hefyd ond cyfrinach i'w rhannu gydag eraill yw'r gyfrinach hon. Mae Iesu'n cyfeirio at un cynhwysyn ychwanegol, rhywbeth sy'n gwneud bywyd yn werth ei fyw. Nid gwerthu'r gyfrinach wnaeth Iesu ond ei rhannu gyda'i ddisgyblion. Meddai Iesu, 'Dw i wedi dod i roi bywyd i bobl, a hwnnw'n fywyd ar ei orau' (Ioan 10:10 beibl.net). Mae Iesu'n awyddus i ni i gyd rannu'r gyfrinach hon â phawb.

Trafodaeth bellach:

● Beth fyddech chi'n ddweud yw 'bywyd ar ei orau'?

● Beth ydi'r gwahaniaeth rhwng y can coke a'r Beibl?

● Sut mae mynd ati i rannu cyfrinach y Beibl?

Dyfyniad o'r Beibl:
Dyma'r adnod o'r Beibl Cymraeg Newydd:
"Yr wyf fi wedi dod er mwyn i ddynion gael bywyd, a'i gael yn ei holl gyflawnder." Ioan 10:10 BCND

Emyn: Gad i mi, Iesu cu: Canu Clod 182

Munud i feddwl:
Mae gan bob un ohonom dri bywyd gwahanol:
bywyd cyhoeddus, bywyd preifat a bywyd cyfrinachol.

Myfyrdod/Gweddi:
Diolch i ti, O Dduw, am y gyfrinach o 'fywyd ar ei orau'. Helpa ni i rannu'r gyfrinach hon â'n ffrindiau. Amen.